# LLWYBRAU GYRFAOEDD A SGILIAU GWYRDD GOGLEDD CYMRU

Canfyddwch gyfleoedd i adeiladu dyfodol cynaliadwy



Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership

# CYFLWYNIAD:

Mae'r dyfodol yn wyrdd, a gallwch chi fod yn rhan ohono. Ledled Gogledd Cymru, mae diwydiannau'n newid yn gyflym i gwrdd â heriau newid hinsawdd a chyflawni sero net. Mae'r newid hwn yn creu gyrfaoedd cyffrous mewn ynni glan, adeiladu cynaliadwy, y sector cyhoeddus, a mwy.

**Pam mae'n bwysig deall Sgiliau a Swyddi Gwyrdd?**

- Rydym eisoes wedi gweld rolau newydd yn cael eu creu mewn meysydd nad oeddynt yn bodoli'n flaenorol.
- Yng Nghymru, ceir uchelgais gref i greu miloedd o swyddi gwyrdd crefftus erbyn 2030.
- Byddwn yn gweld rolau newydd yn datblygu gydag ymddangosiad technolegau carbon isel a diwydiannau cynaliadwy newydd.
- Bydd angen sgiliau gwyrdd uwch ar gyfer nifer o rolau i gyflawni heriau yn y dyfodol.



Pa un a ydych yn cynllunio eich camau nesaf mewn addysg, hyfforddiant, neu waith, bydd y canllaw hwn yn egluro sgiliau a swyddi gwyrdd ac yn dangos sut y gallwch gymryd rhan.

**Bydd yr adnodd hwn yn eich helpu i wneud yr hyn a ganlyn:**

- Deall beth y mae sgiliau a swyddi gwyrdd yn ei olygu mewn gwirionedd
- Archwilio cyfleoedd presennol ac yn y dyfodol sydd ar gael yng Ngogledd Cymru
- Canfod llwybrau clir i yrfaoedd sy'n gwneud gwahaniaeth
- Deall sut i ddatblygu eich sgiliau yn y dyfodol ar gyfer diwydiannau sy'n tyfu
- Chwarae rôl mewn mynd i'r afael â newid hinsawdd ac adeiladu dyfodol cynaliadwy

**Mae Gogledd Cymru'n symud tuag at ddyfodol cynaliadwy - a gallwch fod yn rhan ohono. Dechreuwch eich taith heddiw a helpwch i lunio Gogledd Cymru gwyrddach, cryfach.**



# CYNNWYS


| | |
|---|---|
| Swyddi Gwyrdd | 4 |
| Sgiliau Gwyrdd | 5 |
| Pam mae Sgiliau Gwyrdd yn Bwysig | 5 |
| Llwybrau Sgiliau Gwyrdd | 6 |
| Sectorau Allweddol yn Ysgogi'r Galw am Sgiliau Gwyrdd yng Ngogledd Cymru | 8 |
| Ynni Adnewyddadwy | 8 |
| Technolegau Dal Hydrogen a Charbon (HyNet Gogledd Cymru) | 9 |
| Adeiladu, yr Amgylchedd Adeiledig ac Ôl-osod | 10 |
| Rheolaeth Amgylcheddol ac Adnoddau Naturiol | 11 |
| Amaethyddiaeth Gynaliadwy | 12 |
| Economi Gylchol, Rheoli Gwastraff a Gwydnwch yn wyneb Newid Hinsawdd | 13 |
| Gyrfaoedd Gwyrdd mewn Awdurdodau Lleol | 14 |
| Adnoddau defnyddiol: | 15 |




# SWYDDI GWYRDD


## Beth yw Swyddi Gwyrdd?

Mae swyddi gwyrdd yn 'gyflogaeth mewn gweithgaredd allai gyfrannu at warchod neu adfer yr amgylchedd, gan gynnwys y rheini allai liniaru newid hinsawdd neu addasu iddo, neu helpu cymunedau i addasu i newid hinsawdd'.

Nid yw'r swyddi hyn wedi'u cyfyngu i un sector a gallant fodoli mewn amrywiaeth o ddiwydiannau.

- Gallai swydd werdd gynnwys gwaith amgylcheddol uniongyrchol fel rheoli prosiectau ynni adnewyddadwy, neu gallai fod yn rôl draddodiadol a weithredir mewn ffordd gynaliadwy fel gweithiwr adeiladu sy'n defnyddio deunyddiau carbon isel.
- Nid yw'r hyn sy'n gwneud swydd yn "wyrdd" bob tro'n deitl, ond yn hytrach mae'n ymwneud ag effaith a diben y gwaith.






## Lle y gellir canfod Swyddi Gwyrdd?

Er y gall swyddi gwyrdd fod yn bresennol ar draws yr holl sectorau, maent yn fwy cyffredin mewn diwydiannau sy'n arwain y trosglwyddiad i sero net, fel:

- Ynni a'r Amgylchedd – gan gynnwys ynni adnewyddadwy, rheolaeth amgylcheddol a choedwigaeth
- Adeiladu – gan gynnwys ôl-osod adeiladau gydag adnoddau ynni adnewyddadwy, dyluniad cynaliadwy, deunyddiau carbon isel
- Sector Cyhoeddus – gan gynnwys cynllunio ar gyfer yr hinsawdd a thrafnidiaeth gan lywodraeth leol, caffael cynaliadwy, rheoli gwastraff
- Gweithgynhyrchu a Pheirianneg – gan gynnwys technoleg lân, cynhyrchu effeithlon o ran adnoddau









# SGILIAU GWYRDD


## Beth yw Sgiliau Gwyrdd?

Sgiliau gwyrdd yw'r wybodaeth, y gallu, a'r ymddygiad sy'n caniatáu i unigolion weithio mewn ffyrdd sy'n cefnogi ein trosglwyddiad i sero net ac mae eu hangen i ateb y galw am ddiwydiannau gwyrddu.

Mae sgiliau gwyrdd yn berthnasol ym mhob sector, nid mewn swyddi a labelir yn "wyrdd" yn unig.

Ceir pedwar grŵp o sgiliau y mae galw arbennig am swyddi gwyrdd ynddynt:

- Sgiliau peirianneg a thechnegol
- Sgiliau Gwyddoniaeth
- Sgiliau Rheoli Gweithrediadau
- Sgiliau Monitro







Mae'r enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- Cynnal a gosod technolegau ynni adnewyddadwy neu garbon isel (tyrbinau gwynt, Paneli Solar Ffotofoltaidd, pympiau gwres, ac ati)
- Deall effeithlonrwydd ynni a lleihau carbon
- Gweithredu egwyddorion economi gylchol*
- Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- Defnyddio offer digidol i fonitro'r effaith amgylcheddol

***MAE ECONOMI GYLCHOL YN YMWNEUD AG AILDDEFNYDDIO, ATGYWEIRIO, AC AILGYLCHU PETHAU YN HYTRACH NA'U TAFLU**



Yn ogystal â’r sgiliau hyn, ystyrir bod amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy hefyd yn gynyddol bwysig, nid yn unig ar gyfer sgiliau gwyrdd, ond yn gyffredinol ar gyfer sgiliau’r dyfodol.

SGILIAU TROSGLWYDDADWY CRAIDD Y MAE GALW AMDANYNT AR GYFER ROLAU YN Y DYFODOL





## Pam mae Sgiliau Gwyrdd yn Bwysig

- **Mae diwydiannau newydd yn golygu mwy o swyddi**
  Mae sgiliau gwyrdd yn cefnogi datblygiad diwydiannau newydd a chreu swyddi mewn meysydd fel ynni adnewyddadwy, adeiladu cynaliadwy, a gwasanaethau amgylcheddol.
- **Addasu i Farchnad Swyddi sy'n Newid**
  Mae sgiliau gwyrdd yn hanfodol i bawb – o ddisgyblion sy'n ymadael â'r ysgol a phrentisiaid i weithwyr proffesiynol profiadol. Maent yn cefnogi dilyniant gyrfaol, hyblygrwydd, a pherthnasedd mewn marchnad swyddi sy'n datblygu'n gyflym.
- **Diogelu'r Amgylchedd**
  Mae'r sgiliau hyn yn helpu i ddiogelu tirweddau, bioamrywiaeth, ac ecosystemau unigryw Gogledd Cymru, o fynyddoedd Eryri i Aber yr Afon Dyfrdwy.
- **Gwydnwch Cymunedol**
  Mae rhoi sgiliau gwyrdd i bobl leol yn cryfhau ymatebion cymunedol i heriau sy'n ymwneud â'r hinsawdd fel llifogydd, erydu'r arfordir, a thywydd eithafol.





# LLWYBRAU SGILIAU GWYRDD


Pa un a ydych yn dechrau'r daith, yn newid gyrfa, neu'n dymuno uwchsgilio, ceir amrywiaeth o lwybrau i feithrin yr wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen i ffynnu mewn swyddi gwyrdd ledled Gogledd Cymru.

## Sut i ddechrau arni:

- **Addysg a Hyfforddiant**
  Mae colegau, prifysgolion, a llwyfannau ar-lein yn cynnig cyrsiau mewn cynaliadwyedd, ôl-osod, technoleg amaethyddol, a pheirianneg carbon isel.
- **Prentisiaethau**
  Enillwch gyflog wrth ddysgu gyda phrofiad ymarferol mewn diwydiannau gwyrdd fel gosodiadau ynni a gwarchodaeth amgylcheddol. Mae prentisiaethau'n agored i bobl o bob oed a chefndir.
- **Uwchsgilio a Datblygiad Proffesiynol Parhaus**
  Yn gweithio eisoes? Ychwanegwch sgiliau gwyrdd i'ch rôl gyda hyfforddiant mewn llythrennedd carbon, effeithiolrwydd ynni, ac arferion cynaliadwy - sydd wedi'u hariannu'n aml drwy'r Cyfrif Dysgu Personol.
- **Prosiectau Cymunedol a Gwirfoddoli**
  Ymunwch â mentrau lleol fel prosiectau bioamrywiaeth neu gynlluniau ailgylchu i ennill profiad a meithrin rhwydweithiau.

Awgrym: Defnyddiwch **Portal Sgiliau Gogledd Cymru** i ganfod hyfforddiant, cymorth a chyfleoedd lleol, a chysylltwch â **Gyrfa Cymru** i gael cyngor a gwybodaeth gyrfaol.





## Llwybrau Lefel Mynediad: Cyfleoedd Rhagarweiniol

- **Ar gyfer pwy y mae:** Pobl ifanc (14–19) ac oedolion heb gymwysterau blaenorol
- **Beth sydd ar gael:** Cyrsiau byr, dysgu yn y gymuned, a rhaglenni cyflogadwyedd
- **Ffocws:** Meithrin hyder a sgiliau hanfodol mewn llythrennedd, rhifedd, a chyflogadwyedd i baratoi ar gyfer dilyniant

1

## Llwybrau Lefel 1: Cyfleoedd sy'n Dod i'r Amlwg

- **Ar gyfer pwy y mae:** Pobl ifanc (14–19) ac oedolion heb gymwysterau blaenorol
- **Beth sydd ar gael:** Cymwysterau rhagarweiniol mewn sectorau sy'n gysylltiedig â materion gwyrdd fel y sectorau amgylcheddol, cynaliadwyedd, ac adeiladu
- **Ffocws:** Datblygu sgiliau gwyrdd cyflogadwyedd ac ymarferol craidd ar gyfer hyfforddiant pellach, prentisiaethau, neu rolau lefel mynediad






2

## Llwybrau Lefel 2: Datblygu Cyfleoedd

- **Ar gyfer pwy y mae:** Pobl ifanc (14–19) ac oedolion gyda chymwysterau Lefel 1
- **Beth sydd ar gael:** Prentisiaethau mewn amaethyddiaeth, yr amgylchedd, coedwigaeth, peirianneg, ac uwch weithgynhyrchu; cymwysterau ychwanegol sy'n canolbwyntio ar faterion gwyrdd
- **Ffocws:** Meithrin sgiliau technegol a gwybodaeth am y sector ar gyfer gyrfaoedd gwyrdd






3

## Llwybrau Lefel 3: Ehangu Cyfleoedd

- **Ar gyfer pwy y mae:** 16+ oed, oedolion gyda chymwysterau Lefel 2
- **Beth sydd ar gael:** Prentisiaethau sydd â chysylltiad cryf â gyrfaoedd gwyrdd, gan gynnwys y prentisiaethau rheoli ynni a charbon ac adeiladu.
- **Ffocws:** Meithrin sgiliau technegol uwch ac sy'n benodol i sectorau mewn ynni, adeiladu cynaliadwy, a rheolaeth amgylcheddol
- **Enghreifftiau o Rolau:**
  - Technegydd Ynni (Gosod Ynni Solar/Gwynt (Ynni Adnewyddadwy)
  - Gweithiwr Amgylchedd Dŵr (Rheolaeth Amgylcheddol a Gwydnwch yn wyneb Newid Hinsawdd)
  - Aseswr Ynni Domestig (Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig)



4

## Llwybrau Lefel 4: Cyfleoedd Uwch

- **Ar gyfer pwy y mae:** Oedolion 18+ oed gyda chymwysterau Lefel 3
- **Beth sydd ar gael:** Prentisiaethau uwch a llwybrau technegol mewn rheoli prosiectau adeiladu, systemau ynni, a rheolaeth amgylcheddol
- **Ffocws:** Paratoi ar gyfer rheolaeth lefel mynediad neu rolau technegol uwch mewn sectorau arweiniol gwyrdd
- **Enghreifftiau o Rolau:**
  - Swyddog Carbon a Chynaliadwyedd (Gyrfaoedd Gwyrdd Awdurdodau Lleol)
  - Rheolwr Prosiect ar gyfer Prosiectau Ôl-osod (Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig)
  - Technegydd Prosesau (Dal Hydrogen a Charbon)





5

## Llwybrau Lefel 5: Cyfleoedd Technegol a Rheoli Uwch

- **Ar gyfer pwy y mae:** Oedolion 18+ oed gyda chymwysterau Lefel 3 a 4
- **Beth sydd ar gael:** Diplomas mewn Cynaliadwyedd, Rheolaeth Amgylcheddol, ac Adeiladu
- **Ffocws:** Arweinyddiaeth ac arbenigedd technegol uwch
- **Enghreifftiau o Rolau:**
  - Arweinydd neu Gynghorydd Cynaliadwyedd (Gyrfaoedd Gwyrdd Awdurdodau Lleol)
  - Cydgysylltydd Ôl-osod (Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig)
  - Cydgysylltydd Prosiectau Ynni Adnewyddadwy (Ynni Adnewyddadwy)

6

## Llwybrau Lefel Gradd Lefel 6

- **Ar gyfer pwy y mae:** Oedolion 18+ oed gyda chymwysterau Lefel 3, 4 a 5
- **Beth sydd ar gael:** Prentisiaethau Gradd, Graddau Anrhydedd, Diplomas Lefel 6
- **Ffocws:** Rolau strategol ac arbenigol mewn sectorau gwyrdd
- **Enghreifftiau o Rolau:**
  - Peiriannwr Ynni Adnewyddadwy (Ynni Adnewyddadwy)
  - Peiriannydd Sifil (Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig)
  - Cynghorydd Polisi Amgylcheddol (Rheolaeth Amgylcheddol ac Adnoddau Naturiol)





7

## Llwybrau Ôl-raddedig ac Arbenigol Lefel 7

- **Ar gyfer pwy y mae:** Oedolion 20+ oed gyda chymwysterau Lefel 6
- **Beth sydd ar gael:** Graddfeydd Meistr, TAR, PGDip, NVQ Lefel 7
- **Ffocws:** Rolau uwch reolwyr, polisi, ac ymchwil
- **Enghreifftiau o Rolau:**
  - Uwch Reolwr Cynaliadwyedd (Gyrfaoedd Gwyrdd Awdurdodau Lleol)
  - Arbenigwr Dal Carbon (Dal Hydrogen a Charbon – HyNet Gogledd Cymru)
  - Ymchwilydd Gwydnwch yn wyneb Newid Hinsawdd (Economi Gylchol a Rheolaeth Amgylcheddol)



# SECTORAU ALLWEDDOL YN YSGOGI'R GALW AM SGILIAU GWYRDD YNG NGOGLEDD CYMRU


## Ynni Adnewyddadwy

### Ynni Adnewyddadwy a Glan yng Ngogledd Cymru

Mae Gogledd Cymru'n arweinydd cenedlaethol mewn ynni gwynt, solar, niwclear a'r llanw, gyda phrosiectau mawr yn ysgogi'r galw am weithwyr medrus mewn gosod, cynnal a chadw, ac integreiddio'r grid, gyda Chymru'n cael budd o 20,000 o swyddi ynni glan erbyn 2030.

- **Awel y Môr (Gwynt ar y Môr)**
  Bydd Awel y Môr yn chwarae rôl allweddol mewn ehangu'r capasiti gwynt ar y môr yng Ngogledd Cymru, gan greu cyfleoedd mewn ynni adnewyddadwy, peirianneg, a rheolaeth amgylcheddol.
- **ENGIE First Hydro**
  Un o gyfleusterau storfa bwmpio mwyaf y DU yn Ninorwig a Ffestiniog, sy'n darparu gyrfaoedd hirdymor mewn peirianneg, gweithrediadau, a rheoli ynni.
- **Gwyndod (Wylfa) a Thrawsfynydd (Ynni Niwclear)**
  Safleoedd strategol ar gyfer datblygiadau niwclear newydd a datgomisiynu, sy'n cynnig gyrfaoedd hirdymor mewn perianneg, iechyd a diogelwch, a gweithrediadau.
- **Morlais (Ynni'r Llanw)**
  Yn canolbwyntio ar ddosbarthu a monitro ynni morol, a bydd yn creu rolau mewn gosod, cynnal a chadw, ac arolygu amgylcheddol - sydd ar raddfa fach ar hyn o bryd ond sy'n tyfu.






## Technolegau Dal Hydrogen a Charbon (HyNet Gogledd Cymru)

Mae Gogledd Cymru ar flaen y gad o ran datblygu technolegau **hydrogen carbon isel** a **dal a storio carbon** drwy brosiectau mawr fel **HyNet**. Mae'r dyfeisiau newydd hyn yn hanfodol ar gyfer datgarboneiddio diwydiant trwm, trafnidiaeth, a systemau ynni.

- Disgwylir i HyNet greu **miliynau o swyddi** ar draws y gadwyn werth Dal a Storio Hydrogen a Charbon, gan gefnogi uchelgeisiau sero net Cymru.






| ROLAU ALLWEDDOL MEWN YNNI ADNEWYDDADWY A DAL CARBON A HYDROGEN | | |
|---|---|---|
| **Maes Sgil** | **Enghreifftiau o Rolau** | **Lefel Mynediad Arferol** |
| **Peirianneg a Dylunio** | Peirianneg sifil, fecanyddol, drydanol, gemegol; rheolaeth ac offeryniaeth.<br><br>Hanfodol ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw systemau ynni adnewyddadwy. | Lefel 3–6+ (Prentisiaeth i Radd)<br><br>Mae angen cymhwyster Lefel 6 neu uwch ar gyfer y rhan fwyaf o rolau |
| **Trydanol ac Offeryniaeth** | Trydanwyr, gosodwyr trydanol, technegwyr offer<br><br>Hanfodol ar gyfer adeiladu a chynnal a chadw systemau a gweithfeydd ynni adnewyddadwy. | Lefel 3–6 (Prentisiaeth i Radd)<br><br>Mae angen cymhwyster Lefel 6 neu uwch ar y rhan fwyaf o rolau |
| **Weldio a Gosod Pibellau** | Weldwyr, gosodwyr pibellau, arbenigwyr saernïaeth.<br><br>Hanfodol ar gyfer adeiladu piblinellau a gweithfeydd. | Lefel 2–6 (Prentisiaeth i Lefel Uwch)<br><br>Mae angen weldwyr ar bob lefel |
| **Rigio a Chrefftau Adeiladu** | Rigwyr, crefftau mecanyddol, gweithwyr dymchwel | Lefel 2–4 (Prentisiaeth neu Goleg)<br>Mae nifer o rolau'n hygyrch drwy brentisiaethau. |
| **Cynllunio a Rheoli Prosiectau** | Cynllunwyr, rheolwyr prosiect, rheolwyr safleoedd, syrfëwyr meintiau<br><br>Sicrhau bod prosiectau'n cael eu darparu ar amser, ac o fewn y gyllideb. | Lefel 4–6+ (Prentisiaeth Uwch neu Radd)<br><br>Mae'r sector yn tyfu ac mae angen talent newydd i gymryd lle gweithwyr sy'n ymddeol. |
| **Rolau Rheoli a Chymorth** | Rheolwyr Iechyd a Diogelwch, gweinyddwyr technegol, cyllid, caffael a chydymffurfio. | Lefel 4–6+ (Prentisiaeth Uwch neu Radd)<br>Mae angen uwchsgilio nifer o rolau mewn systemau ynni. |

## Adeiladu, yr Amgylchedd Adeiledig ac Ôl-osod


Nid yw adeiladu gwyrdd yn ymwneud â swyddi newydd yn unig; mae hefyd yn ymwneud â diweddaru sgiliau'r bobl sydd eisoes yn gweithio yn y diwydiant.

- Mae adeiladu'n chwarae rhan hanfodol yng nghadwyn gyflenwi diwydiannau gwyrdd a phrosiectau ynni adnewyddadwy, ac mae Awel y Môr (Gwynt ar y Môr) ar ei ben ei hun yn rhagfynegi hyd at 2,000 o swyddi cadwyn gyflenwi yn ystod y gwaith adeiladu, gan gynnwys logisteg, saernïaeth a gwasanaethau cymorth.
- Mae galw mawr am **drydanwyr, plymwyr, weldwyr, gosodwyr brics, peirianwyr, a gweithwyr metel** ar gyfer crefftau medrus mewn ynni adnewyddadwy.





**ROLAU ALLWEDDOL MEWN ADEILADU, YR AMGYLCHEDD ADEILEDIG AC ÔL-OSOD**





| Rolau Ymarferol | Rolau Technegol a Rheoli |
|---|---|
| **Gosodwr Insiwleiddio** – Gosod deunydd insiwleiddio mewn croglofftydd, waliau ceudod, ac yn allanol/mewnol. | **Aseswr Ôl-osod** – Arolygu adeiladau ac argymell gwaith diweddaru ynni. |
| **Technegydd Pympiau Gwres** – Gosod a chynnal a chadw systemau gwresogi carbon isel. | **Cydgysylltydd Ôl-osod** – Goruchwylio prosiectau ôl-osod a sicrhau cydymffurfiaeth â PAS 2035. |
| **Trydanwr a Phlymar** – Gosod a chynnal a chadw systemau ynni fel paneli solar ffotofoltaidd a phympiau gwres. | **Rheoli Prosiectau** – Arwain prosiectau adeiladu ac ôl-osod, rheoli cyllidebau ac amserlenni. |
| **Adeiladwr a Thöwr** – Gweithio gyda deunyddiau carbon isel ac yn cefnogi gwaith diweddaru strwythurol. | **Peiriannydd Sifil** – Dylunio a goruchwylio gwaith diweddaru seilwaith ar gyfer adeiladau sy'n effeithlon o ran ynni. |
| **Gosodwr pibellau a Rigiwr** – Adeiladu a gosod systemau a chyfarpar ôl-osod | **Syrfëwr Meintiau** – Rheoli costau a chontractau ar gyfer prosiectau ôl-osod ac adeiladu gwyrdd. |


## Wrth i Gymru symud tuag at sero net, mae angen i chrefftwyr eraill ddysgu sut i osod systemau effeithlon o ran ynni fel insiwleiddio, pympiau gwres, a phaneli solar.

Gelwir y broses hon yn **ôl-osod**, ac mae'n allweddol i wneud cartrefi ac adeiladau yn fwy effeithlon o ran ynni. Mae rhaglenni fel y **Rhaglen Ôl-osod er mwyn Optimeiddio** yn arwain y ffordd.

**MEYSYDD UWCHSGILIO ÔL-OSOD ALLWEDDOL**

### TRYDANWR

- Gosod paneli solar ffotofoltaidd
- Systemau Storio Ynni
- Ôl-osod a Rheolaethau Trydanol
- Technolegau Cartrefi Clyfar
- Gwaith Diweddaru Trydanol mewn Adeiladau Treftadaeth









### PLYMWR

- Pympiau Gwres o'r Aer a'r Ddaear
- Systemau Gwresogi Biomas
- Systemau Thermal Solar
- Ôl-osod Plymio Carbon Isel
- Rheoli Lleithder mewn Adeiladau Treftadaeth




### ADEILADWR CYFFREDINOL A THÖWR

- Gwaith To ac Adeiladu ar gyfer Paneli Solar Ffotofoltaidd
- Insiwleiddio a Thriniaethau Adeiladau (waliau allanol, waliau mewnol, croglofftydd)
- Rheoli aerglosrwydd a lleithder
- Technegau Ôl-osod Adeiladau Treftadaeth
- Effeithlonrwydd ac Asesiadau Ynni



### EFFEITHLONRWYDD YNNI

- Aseswr Ynni Domestig
- Aseswr Ôl-osod
- Cydgysylltwr Ôl-osod
- Gwybodaeth Manyleb Gosodwr PAS 2030
- Gwybodaeth Manyleb Cydgysylltu Ôl-osod PAS 2035



## Rheolaeth Amgylcheddol ac Adnoddau Naturiol

O **Barc Cenedlaethol Eryri i Fryniau Clwyd**, mae Gogledd Cymru yn gyfoethog mewn asedau naturiol. Mae awdurdodau lleol, parciau cenedlaethol, a thirfeddianwyr yn chwarae rôl allweddol mewn gwarchod a rheoli'r tirweddau hyn. Wrth i newid hinsawdd gynyddu risgiau fel llifogydd, colli cynefinoedd, a dirywiad bioamrywiaeth, mae'r galw am weithwyr proffesiynol medrus yn tyfu mewn gwaith **cadwraeth, rheoli llifogydd, coedwigaeth,** a **monitro amgylcheddol**.






| CATEGORI | ENGHRAIFFT O ROLAU A GWEITHGAREDDAU | MAES UWCHSGILIO PERTHNASOL |
|---|---|---|
| **Rolau yn y Maes**<br>Gwaith amgylcheddol ymarferol mewn safleoedd | · Rheoli cynefinoedd<br>· Plannu coed a gweithrediadau coetiroedd<br>· Arolygu bioamrywiaeth<br>· Rheoli llifogydd a dŵr | · Gwaith Cadwraeth a Rheoli Coetiroedd Ymarferol<br>· Monitro Bioamrywiaeth<br>· Cynhyrchu a Phrosesu Pren Cynaliadwy<br>· Diogelwch Coed a Choedyddiaeth<br>· Ymwybyddiaeth o'r risg o lifogydd, addasu i'r hinsawdd a gwydnwch yn wyneb newid hinsawdd |
| **Rolau Technegol a Dadansoddi**<br>Dadansoddi data, cydymffurfiaeth a chymorth gwyddonol | · Mapio'r System Gwybodaeth Ddaearyddol<br>· Monitro amgylcheddol<br>· Dadansoddi dŵr, pridd a chynefinoedd<br>· Asesiadau amgylcheddol | · System Gwybodaeth Ddaearyddol a Mapio<br>· Iechyd a Deddfwriaeth Amgylcheddol<br>· Ansawdd Pridd a Dŵr<br>· Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| **Rolau Rheoli a Pholisi**<br>Strategaeth, cynllunio a llywodraethiant | · Cynllunio amgylcheddol<br>· Strategaeth adfer yr hinsawdd a natur<br>· Ymgynghoriaeth rheoli coetiroedd<br>· Polisi defnydd tir<br>· Rheoli Prosiectau | · Addasu i'r Hinsawdd a Gwydnwch yn wyneb Newid Hinsawdd<br>· Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol<br>· Iechyd a Deddfwriaeth Amgylcheddol<br>· Rheoli Prosiectau<br>· Arweinyddiaeth a Rheolaeth |

## Amaethyddiaeth Gynaliadwy

Mae technoleg amaethyddiaeth a ffermio adfywiol yn ehangu ledled y rhanbarth, gan gefnogi cynhyrchu bwyd carbon isel a bioamrywiaeth.

- Ceir galw sy'n tyfu am sgiliau mewn **iechyd y pridd, archwilio carbon**, a **defnydd cynaliadwy o'r tir** wrth i ffermio addasu i arferion hinsawdd-ddeallus.





| CATEGORI | ENGHREIFFTIAU O ROLAU/ GWEITHGAREDDAU | MEYSYDD UWCHSGILIO ALLWEDDOL |
|---|---|---|
| **Rolau mewn Ffermydd** | · Ffermio cynaliadwy<br>· Rheoli bioamrywiaeth<br>· Penderfyniadau defnydd tir dyddiol | · Arferion Ffermio Cynaliadwy<br>· Bioamrywiaeth mewn Ffermio<br>· Rheoli Pridd a Dŵr |
| **Rolau Technegol ac Ymgynghorol** | · Cynghori ar leihau carbon<br>· Cefnogi cynllunio defnydd tir<br>· Ymgynghoriaeth amgylcheddol | · Archwilio Carbon<br>· Strategaeth a Chynllunio Defnydd Tir<br>· Llythrennedd Amgylcheddol |
| **Rolau Arloesedd ac Ymchwil** | · Datblygu / Gweithredu Offer Technegol Amaethyddol<br>· Ymchwilio i ddal carbon<br>· Gwella iechyd pridd | · Offer a Data Technoleg Amaethyddol<br>· Rheoli Pridd a Dŵr<br>· Atafaelu Carbon (tynnu CO2 o'r atmosffer a'i storio) |

## Economi Gylchol, Rheoli Gwastraff a Gwydnwch yn wyneb Newid Hinsawdd

**Mae awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol yng Ngogledd Cymru'n arwain y ffordd ar ailddefnyddio, atgyweirio ac ailgylchu**. Maent yn annog pobl i **fenthyg eitemau bob dydd yn hytrach na phrynu rhai newydd**, gan helpu aelwydydd i arbed arian a thorri allyriadau carbon. Mae **Caffis Atgyweirio** dan arweiniad cymunedau, a gefnogir gan gynghorau a gwirfoddolwyr, yn addysgu sgiliau atgyweirio a lleihau gwastraff ledled y rhanbarth.

- Mae Cymru'n anelu at ddod yn **genedl ddiwastraff erbyn 2050**, gan ysgogi'r galw am rolau economi gylchol ledled y rhanbarth.

Mae galw cynyddol am sgiliau mewn **dylunio nwyddau, logisteg, ac adfer deunyddiau** gan greu cyfleoedd i bobl sy'n dymuno cael effaith wirioneddol ar gynaliadwyedd.





ROLAU ALLWEDDOL YN YR ECONOMI GYLCHOL


| CATEGORI | ENGHREIFFTIAU O ROLAU A GWEITHGAREDDAU | MAES UWCHSGILIO PERTHNASOL |
|---|---|---|
| **Rolau Ymarferol a Gweithredol** | · Didoli a phrosesu deunyddiau ailgylchadwy<br>· Atgyweirio ac adnewyddu nwyddau i'w hailwerthu<br>· Casglu a chludo gwastraff i'w ailgylchu | · Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu<br>· Sgiliau Atgyweirio a Chynnal a Chadw<br>· Iechyd a Diogelwch mewn Gweithrediadau Gwastraff |
| **Rolau Technegol a Dylunio** | · Dylunio nwyddau ar gyfer gwydnwch ac ailgylchadwyedd<br>· Tracio llif deunydd a lleihau gwastraff<br>· Sicrhau cydymffurfiaeth â safonau amgylcheddol | · Dylunio Nwyddau Cynaliadwy<br>· Dadansoddi Data a Thracio Llif Deunydd<br>· Deddfwriaeth a Chydymffurfiaeth Amgylcheddol |
| **Rolau Rheoli ac Arloesedd** | · Arwain prosiectau economi gylchol<br>· Datblygu strategaethau cynaliadwyedd<br>· Rheoli busnesau ailddefnyddio dan arweiniad cymunedau | · Rheoli Prosiectau<br>· Strategaeth Economi Gylchol<br>· Arweinyddiaeth a Rheoli Mentrau Cymdeithasol |

## Gyrfaoedd Gwyrdd mewn Awdurdodau Lleol

Mae awdurdodau lleol (Cynghorau) **yng Ngogledd Cymru'n arwain y ffordd ar gamau gweithredu ar yr hinsawdd a chynaliadwyedd**. Maent yn rhoi cynlluniau hinsawdd lleol ar waith, yn creu mannau gwyrdd, ac yn cefnogi prosiectau cymunedol i helpu i gyrraedd sero net a gwarchod yr amgylchedd.

Mae'r sector cyhoeddus hefyd yn buddsoddi mewn **trafnidiaeth carbon isel, prosiectau arbed ynni, bioamrywiaeth, a mentrau ailgylchu**, gan greu mwy o swyddi gwyrdd – o rolau ymarferol i gynllunio a gwaith polisi.

**Mae'r rolau hyn yn cynnig diogelwch mewn swyddi, effaith ar gymunedau, a dilyniant gyrfaol, gyda chyfleoedd i uwchsgilio staff a recriwtio talent newydd i fodloni'r galw cynyddol am sgiliau gwyrdd.**





### ROLAU GWYRDD ALLWEDDOL MEWN AWDURDODAU LLEOL

| CATEGORI | ENGHREIFFTIAU O ROLAU A GWEITHGAREDDAU | MAES UWCHSGILIO PERTHNASOL |
|---|---|---|
| **Cynllunio a Seilwaith** | · Cynllunio trefol ar gyfer datblygu cynaliadwy<br>· Cynllunio trafnidiaeth ar gyfer symudedd carbon isel<br>· Cynllunio a chydymffurfiaeth amgylcheddol<br>· Peirianneg Sifil | · Adeiladu Cynaliadwy a Dylunio Trefol<br>· Systemau Trafnidiaeth Carbon Isel<br>· Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol |
| **Gweithredu ar yr Amgylchedd a'r Hinsawdd** | · Monitro a chydymffurfio amgylcheddol<br>· Datblygu strategaethau cynaliadwyedd<br>· Addasu i newid i'r hinsawdd a'i liniaru<br>· Ymgysylltu cymunedol ar weithredu ar yr amgylchedd | · Addaus i'r Hinsawdd a Gwydnwch yn wyneb Newid Hinsawdd<br>· Iechyd a Deddfwriaeth Amgylcheddol<br>· Cyfrifo ac Adroddiadau Carbon<br>· Ymgysylltiad Cymunedol ar gyfer Cynaliadwyedd |
| **Gwastraff ac Economi Gylchol** | · Casglu ysbwriel a gweithrediadau ailgylchu<br>· Lleihau gwastraff ac adfer adnoddau<br>· Glanhau strydoedd a lleihau ysbwriel<br>· Rheoli rhaglenni economi gylchol | · Rheoli Gwastraff ac Ailgylchu<br>· Egwyddorion Economi Gylchol<br>· Cydymffurfiaeth Amgylcheddol<br>· Effeithlonrwydd Adnoddau |
| **Caffael ac Effaith Gymdeithasol** | · Prynu nwyddau a gwasanaethau mewn ffordd sy'n helpu'r amgylchedd ac yn cefnogi cymunedau lleol<br>· Ymwreiddio gofynion cynaliadwyedd a charbon isel mewn contractau<br>· Sicrhau gwerth cymdeithasol mewn contractau | · Arferion Caffael Cynaliadwyedd<br>· Gwerth Cymdeithasol (Cefnogi pobl a busnesau lleol)<br>· Deall gwaith monitro ac adroddiadau ar garbon |

## Adnoddau defnyddiol:

A ydych yn barod i gymryd y cam nesaf? Mae gyrfaoedd gwyrdd yn tyfu'n gyflym, a bydd y sgiliau cywir yn agor drysau i gyfleoedd cyffrous ledled Gogledd Cymru.

Defnyddiwch yr adnoddau hyn i archwilio llwybrau, canfod hyfforddiant, a chynllunio eich dyfodol:

- **Portal Sgiliau Gogledd Cymru** - Canfyddwch brentisiaethau, mewnwelediadau i sectorau, a hyfforddiant, digwyddiadau a chyfleoedd gwaith lleol.
- **Gyrfa Cymru** - Ceisiwch wybodaeth am yrfaoedd, cyngor a chanllawiau sydd wedi'u teilwra i'ch nodau.
- **'Go Gwyrdd' RCS** - Cymorth ymarferol i bobl ifanc 16-30 oed ag anableddau, anghenion ychwanegol, neu sy'n gallu wynebu rhwystrau ychwanegol, gan eu helpu i archwilio gyrfaoedd cynaliadwy a datblygu'r sgiliau sydd eu hangen ar gyfer swyddi gwyrdd.

Ddim yn siŵr beth i'w wneud nesaf ac eisiau archwilio eich opsiynau? Darllenwch y **Pecyn Cymorth i Bobl Ifanc**. Mae'n llawn cyngor ymarferol i'ch helpu i gynllunio eich dyfodol.

Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol hefyd yn cynnig adnoddau defnyddiol eraill, gan gynnwys canllawiau ar **brentisiaethau gradd yng Ngogledd Cymru a Phecyn Cymorth Sgiliau Digidol** i'ch helpu i fod ar y blaen mewn marchnad waith sy'n newid.

Mae eich taith yn dechrau yma, gan ddefnyddio'r dulliau hyn i ganfod cyfleoedd a meithrin y sgiliau ar gyfer dyfodol cynaliadwy.










AM FWY O WYBODAETH

info@rspnorth.wales
helo@portal-gogledd.cymru

www.partneriaethsgiliaugogledd.cymru
www.portal-gogledd.cymru

Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru
North Wales Regional Skills Partnership